**PWYLLGOR CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
**CABINET**

Cofnodion o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd Dydd Mawrth, 28 Chwefror 2023 am 11.30 am ym Hybrid.

Cafodd y cyfarfod yma ei ddarlledu'n fyw, ac mae modd gweld y manylion yma

## Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol – Roedd y Aelodau Cabinet canlynol yn bresennol yn Siambr y Cyngor:-

Y Cynghorydd A Morgan (Cadeirydd)

Y Cynghorydd M Webber
Y Cynghorydd G Caple
Y Cynghorydd A Crimmings
Y Cynghorydd R Lewis
Y Cynghorydd C Leyshon
Y Cynghorydd B Harris

**Roedd y Aelodau Cabinet canlynol yn bresennol ar-lein:-**

## Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol eraill oed yn bresennol

Y Cynghorydd K Johnson

## Swyddogion oedd yn bresennol

Mr P Mee, Prif Weithredwr
Mr B Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol
Mr A Wilkins, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
Mr D Powell, Cyfarwyddwr Materion Eiddo'r Cyngor
Ms G Davies, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant
Ms L Davies, Cyfarwyddwr – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau'r Gymuned
Mr R Evans, Cyfarwyddwr - Materion Adnoddau Dynol
Mr R Waters, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Rheng-flaen
Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Mr P Griffiths, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Cyllid a Gwella
Mr N Elliott, Cyfarwyddwr Dros Dro'r Gwasanaethau Cymdeithasol
Ms A Richards, Cyfarwyddwr Dros Dro – Ysgolion yr 21ain Ganrif a Materion Trawsnewid
Ms C Williams, Rheolwraig Gwasanaeth - Plant Anabl
Mr G Roberts, Integrated Transport Manager

## Ymddiheuriadu am absenoldeb

Y Cynghorydd M Norris

## 107 Datgan Buddiant

Roedd y Dirprwy Arweinydd wedi datgan y buddiant personol canlynol mewn perthynas ag Eitem 10 ar yr agenda - Y Rhaglen Gyfalaf: "Rydw i'n Aelod o Gorff

Llywodraethu Ysgol Gynradd Heol y Celyn sydd wedi'i enwi yn yr adroddiad."

## 108 Cofnodion

**PENDERFYNODD** y Cabinet gymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Ionawr 2023.

## 109 Cartrefi Gofal Preswyl i Bobl Hŷn

Cyflwynodd Pennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Cymdeithasol yr adroddiad, sy'n rhoi cyfle i'r Cabinet drafod deilliannau ymgynghoriad sy’n ymwneud â’r opsiynau a ffefrir ar gyfer darpariaeth llety i bobl hŷn ym mhob un o gartrefi gofal preswyl y Cyngor yn y dyfodol.

Yna rhannodd Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu adborth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu 2022-2027, a oedd wedi trafod yr adroddiad yn ystod ei gyfarfod ar 27 Chwefror 2023. Roedd llythyr ffurfiol wedi'i rannu â'r Cabinet cyn y cyfarfod ond manteisiodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth ar y cyfle i grynhoi prif bwyntiau'r llythyr:

- Roedd nifer o Aelodau wedi cydnabod gwrthwynebiad cryf y cyhoedd i'r cynnig mewn perthynas â Chartref Garth Olwg.
- Roedd y mwyafrif wedi nodi'r angen am newid;
- Mae nifer o Aelodau wedi nodi bod angen cyflwyno'r cynigion i fuddsoddi ym mhob cyfleuster cyn gynted ag sy'n bosibl;
- Cafodd sylw ei wneud gan Aelod mewn perthynas â'r hyn y mae'r adroddiad yn canolbwyntio arno, sef capasiti, yn hytrach na sicrhau bod darpariaeth well ar gael yn lleol ym mhob rhan o'r fwrdeistref sirol;
- Gofynnodd Aelod am sicrwydd bod y Cyngor yn 'hyderus' bod modd cefnogi pobl i fyw'n annibynnol am gyfnod hirach yn y gymuned wrth fynd ati i leihau'r capasiti;
- Nododd y mwyafrif bod angen rhagor o gapasiti i ofalu am bobl â dementia yn rhan o'r cynigion yma.

Manteisiodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar y cyfle i ddiolch i'r swyddogion am yr adroddiad cynhwysfawr, a oedd yn nodi rhaglen foderneiddio barhaus y Cyngor ar gyfer cartrefi gofal, er y sefyllfa ariannol ar hyn o bryd. Roedd yr Aelod o'r Cabinet yn gefnogol o'r cynigion a oedd yn ceisio parchu pobl a'u hurddas gan ddarparu cartrefi gofal modern o'r radd flaenaf, gan gynnwys darpariaeth ar gyfer oedolion ag anghenion cymhleth ac anableddau dysgu. Nododd yr Aelod o'r Cabinet, o ran yr ymgynghoriad cyhoeddus a gafodd ei gynnal, bod y sylwadau'n gadarnhaol ar y cyfan a bod trigolion yn croesawu'r buddsoddiad. Siaradodd Aelod o'r Cabinet am y pryderon mewn perthynas â'r cynigion ar gyfer Garth Olwg, gan fanteisio ar y cyfle i ganmol y Cynghorydd G Stacey am dynnu sylw at sawl mater ar ran preswylwyr a staff, a hynny o ran cadw'r cartref gofal yng Ngarth Olwg, a hefyd croesawu cyfleuster newydd ar gyfer oedolion ag anableddau dysgu.

Pwysleisiodd yr Arweinydd nad yw nifer o'r cartrefi gofal sy'n gweithredu ar hyn o bryd yn darparu'r safonau modern newydd y disgwylir, er bod staff gwych yn y cartrefi. Rhoddodd yr Arweinydd wybod bod y Cyngor wedi ystyried ailfodelu'r ystafelloedd er mwyn cynnwys ystafell en-suite, ond byddai hyn yn fwy heriol i drigolion o ganlyniad i'r angen i'w symud sawl tro. Cafodd y cynnig yma'i gondemnio gan Gomisiynydd Pobl Hŷn.

Roedd y Dirprwy Arweinydd wedi diolch i'r Cyfarwyddwr am yr adroddiad gan siarad yn gadarnhaol am y newidiadau i'r cyfleuster yng Nglynrhedynog, a hynny er mwyn cynyddu capasiti, yn dilyn trafod ymatebion i'r ymgynghoriad. Nododd y Dirprwy Arweinydd ei bod hi'n gwerthfawrogi bod modd i gyfnod o newid arwain at bryder, ond roedd hi o'r farn ei bod hi'n bwysig cydnabod na fyddai parhau gyda'r sefyllfa fel y mae ar hyn o bryd yn deg i ddefnyddwyr y gwasanaeth yn y dyfodol, gan nodi ei bod hi'n hollbwysig bod y cyfleuster yn cael ei addasu, yn rhan o fuddsoddiad, er mwyn cwrdd ag anghenion cenedlaethau'r dyfodol.

Siaradodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd a Hamdden yn gadarnhaol am yr adroddiad a'r buddsoddiad sylweddol i gwrdd ag anghenion cymunedau lleol. Nododd yr Aelod o'r Cabinet fod yr ymgynghoriad wedi cael ei groesawu, ond aeth ati i gydnabod pryderon y trigolion mewn perthynas â'r cynnig ar gyfer Cartref Garth Olwg, mae'r rhain wedi cael eu nodi gan y Pwyllgorau Craffu hefyd. Fodd bynnag, pwysleisiodd yr Aelod o'r Cabinet y byddai'r buddsoddiad yn darparu llety â darpariaeth gofal amgen i gefnogi oedolion ag anableddau dysgu.

O ran y pryderon a nodwyd gan drigolion mewn perthynas â'r cynigion ar gyfer Garth Olwg, nododd yr Arweinydd fod dau gartref gofal pellach sy'n cael eu darparu gan y Cyngor, cartrefi gofal preifat a dau gyfleuster gofal ychwanegol o fewn 5 milltir o Gartref Garth Olwg. Nododd yr Arweinydd fod Garth Olwg yn gweithredu ar gyfradd o 50%, nid yw hyn yn debygol o gynyddu. Rhoddodd wybod hefyd bod gwelyau gwag mewn cyfleusterau cyfagos. Pwysleisiodd yr Arweinydd fod angen capasiti a chydnerthedd yn y system gan esbonio y byddai'r cynigion yn rhoi capasiti ychwanegol sylweddol, er y gostyngiadau bach. Siaradodd yr Arweinydd am gyfleusterau gofal ychwanegol y Cyngor ac ymweliad y Cabinet i'r cyfleuster yn Nhonysguboriau a'r adborth cadarnhaol yno.

**PENDERFYNODD** y Cabinet:

1. Trafod:
    - yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar foderneiddio naw cartref gofal preswyl y Cyngor ar gyfer pobl hŷn;
    - yr wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad yma;
    - yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (sy'n cynnwys Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol) a'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg; ac
    - argymhellion a sylwadau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu, yn dilyn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Chwefror 2023, pan gafodd y Pwyllgor gyfle i gynnal gwaith cyn y cam craffu mewn perthynas â'r opsiynau a ffefrir ar gyfer darpariaeth llety'r Cyngor ar gyfer pobl hŷn yn y dyfodol, a hynny'n dilyn yr ymgynghoriad [NODWCH: Cafodd llythyr y Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu ei rannu ag Aelodau'r Cabinet cyn cyfarfod y Cabinet a chafodd fanylion y llythyr yma'i rannu gan y Cyfarwyddwr Gwasanaeth yn ystod y cyfarfod].

2. Cadw’r ddarpariaeth gwasanaeth bresennol yn y pum cartref gofal preswyl isod (sy'n cael eu cynnal gan y Cyngor):

- Cwrt Clydach, Trealaw
- Tŷ Pentre, Y Pentre
- Tegfan, Trecynon
- Cae Glas, Y Ddraenen Wen
- Parc Newydd, Tonysguboriau

3. Bwrw ymlaen gyda'r opsiwn a ffefrir sef datgomisiynu Cartref Gofal Ystrad Fechan yn barhaol a pharhau i archwilio'r posibilrwydd o ddatblygu'r tir ger y cartref gofal presennol gyda Linc Cymru a'r Bwrdd Iechyd a hynny er mwyn darparu llety newydd â darpariaeth gofal. Bydd hyn yn cynnwys 40 fflat gofal ychwanegol ac 20 gwely preswyl ar gyfer gofal dementia, ynghyd ag opsiynau llety iechyd a gofal cymdeithasol eraill gan ddibynnu ar y safle datblygu a'r angen, fel sydd wedi'i nodi yn Adran 7 o'r adroddiad yma. Yn dilyn penderfyniad blaenorol gan y Cabinet, mae cartref gofal preswyl Ystrad Fechan ar gau ar hyn o bryd a does dim trigolion yn byw yn y cartref.

4. Cyflwyno adroddiad pellach i'r Cabinet sy'n nodi manylion y cynigion buddsoddi ar gyfer llety newydd â darpariaeth gofal, gan gynnwys 40 fflat gofal ychwanegol a 20 gwely gofal dementia yn Nhreorci.

5. Bwrw ymlaen â'r opsiwn a ffefrir sef gweithio gyda Linc Cymru i archwilio'r posibilrwydd o ddatblygu'r tir ger cartref gofal Tŷ Glynrhedynog a hynny er mwyn darparu llety newydd â darpariaeth gofal. Bydd hyn yn cynnwys 25 fflat gofal ychwanegol ac 15 gwely preswyl ar gyfer gofal dementia, a datgomisiynu cartref gofal Tŷ Glynrhedynog pan fydd y llety â darpariaeth gofal i bobl hŷn amgen arfaethedig wedi'i ddatblygu, fel sydd wedi'i nodi yn Adran 7 o'r adroddiad; NODER: Dyma ddiwygiad i'r opsiwn a ffefrir sydd yn rhan o'r ymgynghoriad, sef darparu llety â darpariaeth gofal sy'n cynnwys 20 fflat gofal ychwanegol a 10 gwely ar gyfer gofal dementia, byddai'r cynigion newydd yn cynyddu'r ddarpariaeth yn ardal Rhondda Fach.

6. Cyflwyno adroddiad pellach i'r Cabinet sy'n nodi manylion y cynnig ar gyfer buddsoddi, er mwyn darparu llety newydd â darpariaeth gofal, gan gynnwys 25 fflat gofal ychwanegol ac 15 gwely ar gyfer gofal dementia yng Nglynrhedynog.

7. Bwrw ymlaen â'r opsiwn a ffefrir sef gweithio gyda Linc Cymru i archwilio'r posibilrwydd o ddatblygu'r tir ger cartref gofal Troed-y-rhiw a hynny er mwyn darparu llety newydd â darpariaeth gofal. Bydd hyn yn cynnwys 25 fflat gofal ychwanegol ac 15 gwely preswyl ar gyfer gofal dementia, a datgomisiynu cartref gofal Troed-y-rhiw pan fydd y llety amgen arfaethedig ar gyfer pobl hŷn wedi'i ddatblygu, fel sydd wedi'i nodi yn Adran 7 o'r adroddiad;

8. Cyflwyno adroddiad pellach i'r Cabinet sy'n nodi manylion y cynnig

i ddarparu llety newydd â darpariaeth gofal. Bydd hyn yn cynnwys 25 fflat gofal ychwanegol ac 15 gwely ar gyfer gofal dementia yn Aberpennar.

9. Bwrw ymlaen â'r opsiwn a ffefrir, sef datblygu cartref gofal Garth Olwg a hynny er mwyn darparu llety newydd â darpariaeth gofal i gefnogi oedolion ag anableddau dysgu a datgomisiynu cartref gofal Garth Olwg ar gyfer pobl hŷn pan fydd lleoliadau amgen wedi'u sefydlu ar gyfer y preswylwyr presennol, a hynny mewn cartref o'u dewis sy'n bodloni'u hanghenion wedi'u hasesu, fel sydd wedi'i nodi yn Adran 7 o'r adroddiad.

10. Bydd y broses ar gyfer datgomisiynu Cartref Gofal Preswyl Garth Olwg yn cael ei chwblhau erbyn diwedd Mai 2023, a bydd yn cydymffurfio â'r egwyddorion arfer da sydd wedi'u nodi isod ym mharagraff 7.7 o'r adroddiad, ac yn sicrhau bod cymorth cynhwysfawr yn cael ei ddarparu i breswylwyr, eu teuluoedd a'r staff.

11. Cyflwyno adroddiad pellach i'r Cabinet sy'n pennu manylion y cynigion i ddarparu llety â darpariaeth gofal amgen i gefnogi oedolion ag anableddau dysgu ar safle Cartref Gofal Preswyl Garth Olwg.

12. Bydd Cyfarwyddwr Dros Dro'r Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol yn llunio cynllun datblygu'r gweithlu er mwyn mynd i'r afael â'r materion sydd wedi'u nodi gan staff yn ystod yr ymgynghoriad a hynny er mwyn denu, cadw a chefnogi gweithlu dibynadwy, dawnus ac ymroddgar i gefnogi gwaith darparu gwasanaeth gofal preswyl y Cyngor. Bydd y Cynllun Datblygu'r Gweithlu yn cael ei rannu â'r Undebau Llafur er mwyn ceisio'u barn nhw cyn rhoi'r cynllun ar waith.

## 110 Strategaeth Trawsnewid Gwasanaethau Preswyl y Gwasanaethau i Blant

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Dros Dro'r Gwasanaethau Cymdeithasol wybodaeth am gynlluniau'r Gwasanaethau i Blant ar gyfer datblygu gwasanaethau gofal preswyl yn unol â dyletswyddau’r Cyngor, ac yng nghyd-destun uchelgais polisi Llywodraeth Cymru i ddileu elw o’r ddarpariaeth gofal ar gyfer plant sy’n derbyn gofal, a cheisio cytundeb y Cabinet i gymeradwyo a mabwysiadu'r Strategaeth Trawsnewid Gofal Preswyl 2022 i 2027 Arfaethedig: Plant Sy'n Derbyn Gofal

Manteisiodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar y cyfle i ddiolch i swyddogion am yr adroddiad manwl. Roedd e o'r farn bod yr adroddiad yn nodi llwybr clir ar gyfer sicrhau newid ar gyfer y gwasanaethau gofal preswyl i blant. Roedd yr Aelod o'r Cabinet yn gefnogol o'r farchnad 'ddim er elw' gan bwysleisio mai'r bwriad yw darparu gofal ar gyfer plant a phobl ifainc sy'n derbyn gofal, a hynny'n agos i'w cartrefi mewn cartrefi o safon lle mae modd iddyn nhw ffynnu a chael eu cefnogi gan staff dibynadwy, cydnerth a medrus. Roedd yr Aelod o'r Cabinet wedi cydnabod bod hon yn dasg uchelgeisiol ac mae angen goresgyn rhwystrau sylweddol er mwyn cydymffurfio â'r Rheoliadau erbyn

1 Ebrill 2027. Roedd yr Aelod o'r Cabinet, ac yntau'n Gadeirydd y Bwrdd Rhianta Corfforaethol, wedi nodi bod Aelodau'r Bwrdd yn effro i'r cynnydd o ran galw, ddiffyg argaeledd a bod plant wedi cael eu symud y tu allan i'r sir dros y blynyddoedd.

Holodd yr Aelod o'r Cabinet a oedd y penderfyniad wedi cael effaith ar argaeledd lleoedd preswyl ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac a yw'r penderfyniad wedi cynyddu nifer y lleoliadau sy'n gweithredu heb fod wedi'u cofrestru ac sydd wedi'u cefnogi gan y Gwasanaethau i Blant yn ystod y cyfnod yma, a hynny yn Rhondda Cynon Taf ac Awdurdodau Lleol eraill. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth fod y Cyngor wedi datblygu lleoliadau sy'n gweithredu heb fod wedi'u cofrestru oherwydd diffyg yn nifer y lleoliadau cofrestredig addas. Nododd y Cyfarwyddwr mai'r strategaeth arfaethedig yw'r cynllun cryfaf o ran gallu symud i ffwrdd o'r trefniadau yma.

Nododd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd a Hamdden nad yw'r Cyngor eisiau rhoi plant mewn llety heb ei gofrestru, ond does dim dewis arall, o ganlyniad i'r diffyg o ran llety amgen addas, mae hyn yn her sy'n wynebu Awdurdodau Lleol eraill hefyd. Ceisiodd yr Aelod o'r Cabinet sicrwydd bod y lleoliadau heb eu cofrestru yma'n cynnig amgylchedd diogel a gofal a chefnogaeth sydd wedi'u teilwra i fodloni anghenion penodol y plant unigol wrth i'r Cyngor geisio dod o hyn i lety cofrestredig. Esboniodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth fod pob opsiwn yn cael ei ystyried cyn penderfynu ar leoliad sy'n gweithredu heb fod wedi'i gofrestru, ac mae hyn yn cynnwys cefnogi'r bobl ifainc yn y cartrefi sydd ar gael ar hyn o bryd er mwyn osgoi gwaethygu'r mater; a datblygu darpariaeth therapiwtig a chymorth o ran lleoli plant. Yn ogystal â hyn, esboniwyd bod adnoddau RhCT yn cael eu hystyried cyn dewis lleoliad sy'n gweithredu heb fod wedi'i gofrestru. Os nad oes opsiwn arall, diogelwch a lles y person ifanc sy'n cael eu blaenoriaethu. Pwysleisiodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth fod rheolwr yn goruchwylio'r broses gan y bydd hyn yn digwydd mewn cartref i blant yn RhCT.

Dymunodd y Dirprwy Arweinydd ddiolch i'r Pwyllgor Craffu am ei gyfraniad gan nodi ei bod hi'n allweddol bod Aelodau Lleol yn derbyn gwybodaeth gryno a ffeithiol er mwyn atal tybiaethau a mynd i'r afael â phryderon y gymuned, a hynny er mwyn cefnogi pobl ifainc mewn cymunedau lleol.

Yn dilyn sylwadau'r Dirprwy Arweinydd, cynigodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Iechyd a Gofal Cymdeithasol argymhelliad pellach a oedd yn nodi bod sesiynau gwybodaeth ar gyfer Aelodau Etholedig yn cael eu cynnal er mwyn rhoi cyfle i Aelodau ddysgu rhagor o ran uchelgais y Strategaeth, dyletswyddau'r Cyngor o ran pobl ifainc sy'n derbyn gofal a chefnogi Aelodau Etholedig wrth ymateb i ymholiadau gan etholwyr.

**PENDERFYNODD** y Cabinet:

1. Trafod yr wybodaeth oedd wedi ei chynnwys yn yr adroddiad;
2. Nodi sylwadau'r Pwyllgor Craffu - Gwasanaethau Cymuned, yn dilyn y gwaith cyn y cam craffu mewn perthynas â'r Strategaeth arfaethedig a gafodd ei gynnal ar 28 Tachwedd 2022;
3. Mabwysiadu: Strategaeth Trawsnewid Gofal Preswyl 2022 i 2027 Arfaethedig: Plant Sy'n Derbyn Gofal
4. Dylid bwrw ymlaen â sesiynau gwybodaeth i'r Aelodau hefyd er mwyn rhoi cyfle i Gynghorwyr ddysgu rhagor am uchelgais y strategaeth, y dyletswyddau i bobl ifainc sy'n derbyn gofal ac i helpu Aelodau Etholedig i ymateb i unrhyw ymholiadau gan etholwyr.

**111 Rhaglen Waith Y Cabinet**

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet am Raglen Waith y Cabinet, gan gynnwys y rhestr arfaethedig o faterion y mae angen i'r Cabinet eu trafod yn ystod Blwyddyn 2022-23 y Cyngor.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth wybod i'r Aelodau fod newidiadau wedi'u gwneud i'r rhaglen waith ers ei chyhoeddi, bydd y rhain yn cael eu hadlewyrchu ar wefan y Cyngor. Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth wybod y byddai cyfarfod ychwanegol yn cael ei drefnu ar gyfer y Cabinet ym mis Ebrill i sicrhau bod pob mater yn cael ei drafod erbyn diwedd Blwyddyn y Cyngor.

**PENDERFYNODD** y Cabinet:

1. Cymeradwyo'r Rhaglen Waith ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2022-23 (gan addasu'n briodol ar ôl yr angen) a chael yr wybodaeth ddiweddaraf bob 3 mis.

**112 Teithio am Ddim ar Fysiau Iedled Rhondda Cynon Taf ym mis Mawrth 2023**

Cyflwynodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Rheng Flaen yr adroddiad sy'n gofyn i'r Cabinet gymeradwyo cynllun i ddarparu teithiau bws am ddim rhwng 1 a 31 Mawrth 2023. Byddai'r cynnig ar waith ar gyfer pob taith sy'n dechrau ac yn gorffen o fewn ffiniau Rhondda Cynon Taf. Esboniodd y Cyfarwyddwr fod cais llwyddiannus y Cyngor i sicrhau cyllid yn rhan o Gronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU yn cyflwyno mentrau a fydd yn helpu i leihau costau byw ar gyfer trigolion a hynny gan weithredu mesurau sy'n gwella effeithlonrwydd ynni ac sy'n mynd i'r afael â thlodi tanwydd a newid yn yr hinsawdd. Mae £500,000 pellach wedi'i ddyrannu ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23, gyda dyraniadau pellach gwerth £1.1miliwn ar gyfer 2023/24 ac £1.2miliwn ar gyfer 2024/25.

Os yw'r cynnig yn cael ei gymeradwyo, esboniodd y Cyfarwyddwr y byddai teithiau am ddim yn cael eu cynnig gan bob gweithredwr sy'n gweithredu amserlen ar gyfer bysiau yn y Fwrdeistref Sirol. Os yw taith yn gorffen y tu allan i ffiniau RhCT, byddai angen talu am y rhan honno o'r daith.

Dywedodd yr Arweinydd mai £2.30 yw pris taith bws ar gyfartaledd yn RhCT ac esboniodd fod swyddogion wedi trafod model cychwynnol a oedd yn cynnwys cyfradd safonol o £2 ar gyfer y flwyddyn gyfan, sef cyfanswm o £2miliwn. Nid yw hyn yn fforddiadwy. Pe byddai'r Cyngor wedi dewis y gyfradd safonol o £2 am gyfnod o fis, byddai swm mawr o'r cyllid wedi cael ei ddychwelyd i'r Llywodraeth.

Aeth yr Arweinydd ymlaen i drafod Awdurdod Lleol arall, a oedd wedi cynnal cynllun peilot tebyg gan gynnig teithiau am ddim. Roedd cynnydd o 30% yn nifer y bobl oedd yn defnyddio'r gwasanaeth ac er nad oedd unrhyw dystiolaeth hirdymor o gynnydd sylweddol, y bwriad oedd cynyddu nifer y teithwyr yn y dyfodol. Nododd yr Arweinydd y byddai cynnydd yn nifer y bobl sy'n defnyddio gwasanaeth bws yn cefnogi'r Cyngor gyda'i ymrwymiadau o ran yr hinsawdd yn ogystal â helpu trigolion RhCT i arbed oddeutu £500,000 ar gostau teithio yn ystod y mis.

Rhoddodd yr Arweinydd wybod y bydd adolygiad o'r cynllun peilot yn cael ei gynnal ar ôl mis Mawrth a hynny er mwyn ennill dealltwriaeth o'r ffordd orau o ddefnyddio'r cyllid ychwanegol gwerth £1.2miliwn yn ystod y flwyddyn ariannol newydd.

Gyda chytundeb yr Arweinydd, siaradodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol K. Morgan ar yr eitem yma.

Dymunodd yr Arweinydd ddiolch i'r Aelod am ei gyfraniad gan esbonio bod Llywodraeth Cymru wedi ymestyn y Cynllun Brys ar gyfer y Sector Bysiau am dri mis pellach, a bod modd ymestyn y cyfnod yma eto yn dilyn hynny. Ychwanegodd yr Arweinydd y byddai Llywodraeth Leol yn galw ar Lywodraeth y DU i ddarparu cyllid pellach ar gyfer y Cynllun Brys ar gyfer y Sector Bysiau yn dilyn y cyhoeddiad ynglŷn â'r gyllideb ar 14 Mawrth 2023. Roedd yr Arweinydd wedi cydnabod bod y cynnydd yng nghostau tanwydd ac ati wedi cael effaith ar y gwasanaethau.

Roedd y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd a Hamdden wedi siarad o blaid y cynnig. Roedd y Dirprwy Arweinydd wedi siarad ar ran trigolion sy'n dibynnu ar drafnidiaeth gyhoeddus ac sy'n cael eu heffeithio gan yr argyfwng costau byw; nododd y bydd gallu teithio ar fysiau am ddim yn RhCT drwy gydol mis Mawrth o fudd mawr iddyn nhw.

**PENDERFYNODD** y Cabinet:

1. Nodi cynnwys yr adroddiad a chymeradwyo'r cynnig i gyflwyno teithiau bws am ddim ar gyfer y cyfnod rhwng 1 a 31 Mawrth 2023 ar gyfer pob taith sy'n dechrau ac sy'n gorffen yn y fwrdeistref sirol; a
2. Bod Swyddogion yn adolygu deilliannau'r cynllun teithio am ddim ac yn ceisio datblygu mentrau teithio ar fysiau am ddim pellach yn ystod blwyddyn ariannol 2023/24 a 2024/25 e.e. yn ystod Rhagfyr 2023; yn amodol ar gyllid.

## 113 Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy - Enwi Tair Ysgol Newydd yn Ardal Pontypridd

**PENDERFYNODD** y Cabinet symud y drafodaeth ynglŷn â'r eitem yma i gyfarfod yn y dyfodol.

## 114 Y Diweddaraf am y Cynlluniau Rhyddhad Ardrethi Annomestig ac Ailbrisio

Cyflwynodd Pennaeth Refeniw a Budd-daliadau'r adroddiad i'r Cabinet, sy'n nodi:

a) Manylion Cynllun Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023/24;
b) Cynllun lleihau ardrethi busnes lleol arfaethedig; a
c) Manylion y gwaith Ailbrisio Ardrethi Annomestig sy'n dod i rym ar 1 Ebrill 2023.

Roedd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Newid yn yr Hinsawdd a Gwasanaethau Corfforaethol yn falch o nodi bod Llywodraeth Cymru wedi cydnabod yr heriau ariannol sy'n wynebu busnesau ledled Cymru, a chroesawodd y cynnydd yn lefel y rhyddhad ardrethi i 75% yn y sectorau Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch.

Roedd yr Aelod o'r Cabinet hefyd yn falch o nodi y bydd cynllun lleol y Cyngor hefyd yn cynyddu o £300 i £500 ar gyfer pob eiddo busnes cymwys gan nodi y bydd 600 o fusnesau yn elwa yn y flwyddyn nesaf. Daeth yr Aelod o'r Cabinet i ben drwy nodi y bydd y Cynllun Rhyddhad Trosiannol, ynghyd â chadw'r lluosydd ar gyfradd o 53.5c yn diogelu busnesau rhag effaith y gwaith Ailbrisio Ardrethi Annomestig.

Ychwanegodd yr Arweinydd y bydd cynyddu'r cynllun rhyddhad lleol o £300 i £500 yn arwain at gyflawni ymrwymiad y weinyddiaeth i ddarparu cymorth ychwanegol ar ben cynlluniau Llywodraeth Cymru.

**PENDERFYNODD** y Cabinet:

1. Nodi cynnwys Cynllun Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch Llywodraeth Cymru a mabwysiadu'r cynllun ar gyfer 2023/24;
2. Cynllun lleihau ardrethi busnes lleol arfaethedig ar gyfer 2023/24; a
3. Nodi manylion y gwaith ailbrisio Ardrethi Annomestig.

**Nodwch: Yn dilyn trafodaeth ynglŷn â'r mater, roedd yr Arweinydd wedi gadael y cyfarfod a chamodd y Dirprwy Arweinydd i rôl y Cadeirydd.**

## 115 Cyllideb Refeniw'r Cyngor ar gyfer 2023-2024

Rhannodd y Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Cyfadran - Cyllid, Gwasanaethau Digidol a Gwasanaethau Rheng Flaen y strategaeth gyllideb ddrafft er mwyn i'r Cabinet ei drafod a'i chyflwyno i'r Cyngor er mwyn ei chymeradwyo.

Manteisiodd y Dirprwy Arweinydd ar y cyfle i ddiolch i swyddogion am fynd i'r afael â'r gyllideb mewn modd cynaliadwy, yn enwedig o ran defnyddio cyllid trosiannol. Roedd y Dirprwy Arweinydd wedi cydnabod y pwysau parhaus o ran gofal cymdeithasol ac aeth ati i gynnig bod y Cabinet yn diwygio'r strategaeth arfaethedig er mwyn bwrw ymlaen â'r cynnydd o 3.90% yn Nhreth y Cyngor. Roedd y Dirprwy Arweinydd o'r farn y bydd y cynnydd bach yma'n rhoi Cyngor RhCT ymhlith yr Awdurdodau Lleol â'r cyfraddau Treth isaf yng Nghymru.

Nododd y Dirprwy Arweinydd fod arbedion wedi dod o feysydd caffael, technoleg, swyddfa gefn ac arbedion effeithlonrwydd; a bod y Cyngor wedi osgoi dileu swyddi'n orfodol. Nododd y Dirprwy Arweinydd fod llai o gyfleoedd nag erioed i sicrhau arbedion mewn meysydd sydd ddim yn rhai rheng flaen.

Yn sgil sylwadau'r Dirprwy Arweinydd, cynigodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Newid yn yr Hinsawdd a Gwasanaethau Corfforaethol y dylai'r Cabinet gymeradwyo'r cynigion sydd wedi'u nodi yn yr adroddiad gan gynnig argymhelliad ychwanegol, sef diwygio'r cynnydd arfaethedig yn Nhreth y Cyngor ar gyfer 2023/24 i 3.90%, a phenderfynu bod y lefel yma'n cael ei chynnwys yn rhan o Strategaeth Gyllideb y Cabinet ar 8 Mawrth 2023.

**PENDERFYNODD** y Cabinet:

1. Adolygu a diwygio'r Strategaeth Gyllideb y mae'r Cabinet yn dymuno'i hargymell i'r Cyngor ar 8 Mawrth 2023;
2. Diwygio'r cynnydd arfaethedig o ran Treth y Cyngor ar gyfer 2023/24 i 3.90%, er mwyn lliniaru'r pwysau sydd ar y gwasanaethau gofal

cymdeithasol, a nodi bod y lefel yma'n rhan o Strategaeth Gyllideb y Cabinet a fydd yn cael ei chyflwyno i'r Cyngor ar 8 Mawrth 2023; ac

3. Argymell i'r Cyngor ei fod yn awdurdodi'r Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Cyfadran - Cyllid, Gwasanaethau Digidol a Gwasanaethau Rheng Flaen i ddiwygio'r gyllideb ganlyniadol er mwyn cynnwys y Setliad Terfynol fel sydd wedi'i nodi yn Adran 4 o'r adroddiad.

**116 Rhaglen Gyfalaf**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Digidol fanylion rhaglen gyfalaf dair blynedd arfaethedig ar gyfer 2023/24 hyd at 2025/26, a fydd yn cael ei chyflwyno i'r Cyngor i'w chymeradwyo, os yw'n dderbyniol.

Manteisiodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Newid yn yr Hinsawdd a Gwasanaethau Corfforaethol ar y cyfle i ddiolch i'r Cyfarwyddwr am yr adroddiad ac roedd yn falch o nodi bod y rhaglen gyfalaf yn parhau i ddarparu lefel o fuddsoddiad cyfalaf sydd ymhlith yr uchaf gan unrhyw Awdurdod Lleol yng Nghymru, a hynny er gwaetha'r sefyllfa ariannol heriol ar hyn o bryd. Nododd yr Aelod o'r Cabinet fod y buddsoddiad yn cefnogi darparu newidiadau gweladwy yn ein cymunedau ac yn gwella cymunedau ledled RhCT o ganlyniad i hynny.

Adleisiodd y Dirprwy Arweinydd sylwadau'r Aelod o'r Cabinet ac roedd hi'n falch o nodi'r rhaglen fuddsoddi uchelgeisiol, er gwaetha'r hinsawdd ariannol gyfredol.

**PENDERFYNODD** y Cabinet:

1. Adolygu a chynnig y rhaglen gyfalaf tair blynedd sydd wedi'i hatodi i'r Cyngor ar 8 Mawrth 2023 sy'n cynnwys:

- Cynllun arfaethedig i ddyrannu adnoddau fel sydd wedi'u nodi ym mharagraff 5 o'r adroddiad;
- Blaenoriaethau buddsoddi arfaethedig fel sy'n cael eu manylu ym mharagraff 6.2 o'r adroddiad;
- Rhaglen gyfalaf graidd y Cyngor;
- Cyfanswm rhaglen gyfalaf y Cyngor, gan gynnwys cyllid ychwanegol sydd ddim yn gyllid craidd.

2. Awdurdodi'r Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Cyfadran - Cyllid, Gwasanaethau Digidol a Gwasanaethau Rheng Flaen i ddiwygio lefel Adnoddau'r Cyngor sydd eu hangen i ariannu'r Rhaglen Gyfalaf Tair Blynedd Graidd, fel sydd wedi'i nodi yn Atodiad 2 o ganlyniad i unrhyw newid i lefelau adnoddau cyfalaf y Cyngor a gyhoeddwyd yn y Setliad Llywodraeth Leol Terfynol.

**Daeth y cyfarfod i ben am Time Not Specified**

**Y Cynghorydd A Morgan**
**Cadeirydd.**